



Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched-Cymru

Maniffesto ar gyfer Etholiad y Senedd 2026



Cyflwyniad i SyM

SyM yw'r sefydliad mwyaf i ferched yn y DU, gydag oddeutu 180,00 o aelodau mewn mwy na 5,500 o SyM ledled Cymru, Lloegr, a'r Ynysydd. Yng Nghymru, mae oddeutu 11,000 o aelodau'n perthyn i bron 500 o SyM wedi'u lleoli mewn trefi a phentrefi ar draws y wlad.

Gweledigaeth SyM yw creu byd lle mae merched yn dod at ei gilydd i ddysgu, rhannu sgiliau a chydweithio er mwyn tyfu'n ddinasyddion gweithgar, yn dylanwadu ar newid i wella bywydau yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Yn ystod y 110 o flynyddoedd diwethaf, mae SyM wedi chwarae rhan bwysig yn cyflawni newid cadarnhaol i ferched ac i gymdeithas, gan ymgyrchu ar ystod o faterion o gaethwasiaeth fodern i newid hinsawdd, iechyd meddwl, a thrais yn erbyn menywod.

Mae'r maniffesto hwn wedi'i seilio ar flaenoriaethau ymgyrchu presennol SyM. Mae FfCSyM-Cymru'n galw ar yr holl bleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol i gefnogi gofynion ein maniffesto.



Darparu Gwasanaeth Iechyd Deintyddol y GIG sy'n addas i'r diben

Mae gwasanaeth Iechyd Deintyddol y GIG mewn argyfwng. Mae prinder o ddeintyddion y GIG a gweithredu'r contract deintyddol presennol yn achosi gofid sylweddol ac anghyfleustra i unigolion a theuluoedd di-rif. Mae'r sefyllfa hefyd wedi rhoi pwysau enbyd ar yr ychydig bractisau deintyddol sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau'r GIG, gan achosi amserau aros hir a lleihau nifer yr apwyntiadau sydd ar gael i gleifion.

Mae ymchwil gan FfCSyM wedi dangos bod diffyg mynediad at ofal deintyddol y GIG yn cael yr effaith fwyaf ar ferched, gan waethygu argyfwng iechyd ar sail rhywedd, sy'n unigryw. Mae'r adroddiad yn taflu goleuni ar brofiadau cudd merched sydd yn aml wedi'u dynodi'n brif ddarparwyr gofal eu teuluoedd ac eto'n gorfod brwydro i gael gofal deintyddol, gan aberthu eu hiechyd eu hunain yn aml i gefnogi eu hanwyliaid. Mae hefyd yn nodi'r heriau unigryw o ran iechyd deintyddol y mae merched yn eu hwynebu o gymharu â dynion.



Mae'r profiadau a rannwyd gan aelodau SyM yng Nghymru wedi cynnwys datblygu poen cronig, gorfod mynd i adran damweiniau ac achosion brys oherwydd poen deintyddol, teithio 200 o filltiroedd er mwyn gweld deintydd y GIG, hunan-feddyginiaethu, tynnu dannedd eu hunain, a methu â dod o hyd i unrhyw ddeintyddion sy'n fodlon gweld eu plant fel cleifion y GIG. Nid dim ond mater iechyd yw'r argyfwng hwn, mae'n fater economaidd-gymdeithasol hefyd. Caiff y rhai na allant fforddio talu am ofal deintyddol preifat eu heffeithio'n anghymesur, gan waethygu anghydraddoldebau iechyd sydd eisoes yn bodoli. Mae'n hanfodol i gymryd camau er mwyn sicrhau bod pawb, waeth beth fo eu sefyllfa ariannol, yn gallu cael gofal deintyddol o ansawdd.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu Gwasanaeth Iechyd Deintyddol y GIG sy'n addas i'r diben ac yn ymateb i rywedd drwy:

- Ddiwygio contract deintyddol y GIG: Rhaid diwygio contract deintyddol 2006 y GIG er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng o ran mynediad i ddeintyddiaeth, a sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gynnig gwasanaeth deintyddol y GIG i bawb. Dylai'r diwygiadau talu'n deg i weithwyr proffesiynol am achosion cymhleth, a chyflwyno cymelliadau i ddeintyddion weithio mewn ardaloedd heb wasanaethau digonol.
- Tyfu gweithlu deintyddol y GIG: Er mwyn mynd i'r afael â'r prinder deintyddion y GIG, dylai'r llywodraeth ymestyn rhaglenni hyfforddiant a rhoi cymelliadau ariannol i gadw'r ymarferwyr presennol a denu talent newydd i ddeintyddiaeth y GIG.
- Gwneud gofal deintyddol yn fforddiadwy ac yn hygyrch: Dylai gofal deintyddol y GIG fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch, gan atal cleifion rhag gorfod dioddef teithiau hir, neu beidio â chael triniaeth hyd nes y bydd angen gofal brys arnynt.
- Mynd i'r afael ag effaith rhywedd ar yr argyfwng iechyd deintyddol: Rhaid i'r llywodraeth gydnabod bod merched yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng gofal deintyddol, gan gynnwys effaith beichiogrwydd a'r menopos ar iechyd deintyddol. O'r herwydd, dylai sicrhau bod profiadau merched ar frig y datrysiadau polisi i'r argyfwng.

Meddwl yn Wahanol: Menywod a Merched Awtistig ac ag ADHD

Cafodd profiadau menywod a merched o awtistiaeth ac ADHD eu hanwybyddu a'u methu ers yn rhy hir. Yn y DU, mae merched yn cael diagnosis o awtistiaeth 2-3 blwyddyn yn hwyrach na bechgyn ar gyfartaledd.

Mae cuddio awtistiaeth ac ADHD yn fwy cyffredin ymysg menywod a merched o gymharu â bechgyn a dynion ac mae menywod a merched yn treulio llawer o'u hamser a'u hymdrech yn ceisio cydymffurfio â'u cyfoedion. Mae'r broses guddio'n llafurus yn feddyliol ac yn ynysu pobl, a dangoswyd cysylltiad rhyngddi â risg uwch o iselder, gorbryder a hunanladdoldeb ymysg menywod a merched awtistig ac ag ADHD.



Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd FfCSyM adroddiad yn nodi profiadau byw menywod a merched awtistig ac ag ADHD. Dywedodd mwy na 66% o'r rhai a ymatebodd yng Nghymru eu bod yn teimlo nad yw cymdeithas yn deall nac yn derbyn pobl awtistig. Nododd mwy na 90% o'r rhai a ymatebodd fod diffyg ymwybyddiaeth o fenywod a merched awtistig ac ag ADHD mewn lleoliadau gofal iechyd. Dywedodd bron hanner ohonynt fod cael diagnosis ychydig yn anodd neu'n anodd iawn, a theimlai 88% ohonynt nad oes cefnogaeth ddigonol ar gael i unigolion awtistig a'u teuluoedd.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebwyd gan fenywod a merched niwrowahanol pan fyddant yn cael cymorth a defnyddio gwasanaethau trwy:

- Wella'r broses roi diagnosis i fenywod a merched trwy ddull croestoriadol ar sail rhywedd.
- Lleihau amserau aros am ddiagnosis yn unol â chanllawiau NICE.
- Gwella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr addysg proffesiynol er mwyn iddynt ddeall ac adnabod yn well pan fydd merch yn awtistig neu ag ADHD.

Rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched



Credyd llun: Anne-Marie Bickerton

Mae Trais yn erbyn Menywod a Merched yn ymyrru â hawliau dynol menywod, ac mae'n achos ac yn ganlyniad o anghydraddoldeb ar sail rhywedd. Mae amllder Trais yn erbyn Menywod a Merched yn frawychus ac yn annerbyniol. Caiff menyw ei lladd gan ddyn bob tri diwrnod yn y DU. Ym mis Gorffennaf 2024, disgrifiwyd Trais yn erbyn Menywod a Merched yn argyfwng cenedlaethol gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a ddywedodd bod yr heddlu yn cofnodi 3000 o droseddau bob dydd. Mae gwir faint y broblem llawer iawn yn fwy, gan nad yw llawer o achosion o Drais yn Erbyn Menywod a Merched yn cael eu hadrodd i'r heddlu.

Dangosodd arolwg a gomisiynwyd gan SyM ym mis Mawrth 2025 fod bron dau draean (64%) o oedolion yn ystyried casineb at wragedd yn broblem ym Mhrydain heddiw, ac mae tri ymhob deg oedolyn yn ei ystyried yn broblem ddifrifol. Mae dros hanner o'r holl fenywod (56%) yn fwy tebygol o fod wedi cymryd camau yn ystod y 12 mis diwethaf i wneud iddynt deimlo'n fwy diogel. Dylai fod yn gyfrifoldeb ar y rhai sy'n cyflawni'r trais i newid eu hymddygiad yn hytrach nag i fenywod a merched addasu eu bywydau. Ers 2012, mae aelodau SyM wedi bod yn recriwtio llysgenhadon gwryw i sefyll i fyny yn erbyn Trais yn erbyn Menywod a Merched.

Dylai fod mynediad cyfartal i wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer merched ym mhob cwr o Gymru. Ond mae dibyniaeth y gwasanaethau hyn ar gyllid byrdymor yn effeithio ar eu gallu i gynllunio'n hirdymor, recriwtio a chadw staff, a llesiant staff. Mae cyllid cynaliadwy, hirdymor ar gyfer gwasanaethau cymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hanfodol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu er mwyn rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched trwy:

- Gyflawni mesurau ar gyfer, a buddsoddi mewn, atal Trais yn erbyn Menywod a Merched ar bob lefel o gymdeithas, gan gynnwys mentrau wedi'i hanelu at ddynion a bechgyn.
- Rhoi blaenoriaeth i roi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Merched fel thema drawsbynciol ar draws holl adrannau'r llywodraeth, a rhoi ymateb system gyfan.
- Darparu model ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol.
- Parhad y Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwr Trais a datblygu model ariannu hirdymor, cynaliadwy i gefnogi goroeswyr heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Mae FfCSyM-Cymru'n aelod o'r Rhwydwaith Rhywedd ac yn cefnogi'r gofynion 'Atal trais ar sail rhywedd a chefnogi goroeswyr' ym [Maniffesto Hawliau Menywod Cymru](#).

Newid Hinsawdd



Credyd llun: Anne-Marie Bickerton

Newid hinsawdd yw'r prif fygythiad mwyaf i'r bobl a'r lleoedd a garwn, yma yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Yn rhy aml o lawer, merched yw'r rhai sy'n dioddef yn gyntaf a gwaethaf oherwydd effeithiau newid hinsawdd yn fyd-eang. Dangosodd Rhwydwaith Amgylcheddol y Merched fod 80% o'r bobl a adleoliwyd oherwydd newid hinsawdd yn ferched. Mae newid hinsawdd yn gwaethygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes ac yn effeithio'n anghymesur ar bobl ar incwm isel, merched, ac aelodau o grwpiau lleiafrifedig. Ar yr un pryd, yn aml nid ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y broses i ddod o hyd i'r datrysiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy:

- Gyflawni cyfnod pontio cyfiawn a theg i sero net erbyn 2030.
- Ymgysylltu a grymuso lleisiau ymylol fel merched ac aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol yn y gwaith o ddatblygu polisiau a phenderfyniadau am yr hinsawdd. Dim ond pan gaiff pob llais ei glywed y gallwn ni ddatblygu datrysiadau cynhwysol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Afonydd glân i bobl a bywyd gwylt



Mae aelodau SyM yn pryderu am iechyd gwael ein hafonydd. Dim ond 43% o afonydd Cymru sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer statws ecolegol da ar hyn o bryd, a dim ond 40% o gyrff dŵr yn gyffredinol sydd â statws da neu well.

Mae llygredd afonydd yn cyfrannu at gollu bioamrywiaeth, ac mae poblogaethau eogiaid yn dirywio'n ddifrifol mewn llawer o afonydd Cymru.

Mae ymchwil gan Brifysgol Bangor wedi darganfod microblastigion yn ein hafonydd. Un o brif ffynonellau llygredd microblastig yw gwisgo a golchi dillad synthetig. Er bod gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn dal microblastigion mewn dŵr gwastraff yn effeithiol, mae niferoedd enfawr ohonynt yn mynd yn ôl i fyd natur trwy'r arfer o ddefnyddio slwtsh carthion fel gwrtaith amaethyddol. Mae colli carthion nas drinnir o orlifiadau carthion yn ffynhonnell arwyddocaol o lygredd hefyd.

Ni wyddom oblygiadau llawn microblastigion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gynyddol yn dangos bod microblastigion yn effeithio ar iechyd dynol, bywyd gwylt ac ecoleg gyfan afonydd. Ar hyn o bryd, ni chaiff afonydd eu monitro ar gyfer microblastigion a llygryddion eraill.

Mae dyfroedd ymdrochi dynodedig yn rhan allweddol o'r gwaith i lanhau ein dyfroedd llygredig. Dyma'r unig leoedd y caiff effaith ansawdd dŵr ar iechyd dynol ei fonitro'n rheolaidd, a chaiff ymrwymadau cyfreithiol eu gosod ar ddiwydiannau sy'n llygru er mwyn iddynt weithredu'n lanach.

Yn ystod y tymor Dyfroedd Ymdrochi o fis Mai i fis Medi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn profi ansawdd dŵr y 112 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru (y nifer ym mis Mai 2025) ar gyfer dau fath o facteria, sef E.coli ac enterococci coluddol. Gan fod afonydd yn cael eu defnyddio at ddibenion hamdden drwy gydol y flwyddyn, ni ddylid cyfyngu ar brofi ansawdd dŵr i'r tymor Dyfroedd Ymdrochi.

Rhyddhawyd carthion i afonydd, llynnoedd a moroedd am 985,341 o oriau gan gwmnïau Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn 2024. Rhyddhawyd carthion gan gwmni Dŵr Cymru 118,276 o weithiau, a gan Hafren Dyfrdwy 1,810 o weithiau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu i fynd i'r afael â'r llygredd yn ein hafonydd trwy:

- Ddynodi darnau addas o afonydd Cymru yn ddyfroedd ymdrochi er mwyn helpu i wella cyflwr ein hafonydd.
- Gwellu trefniadau monitro dyfroedd ymdrochi, tu hwnt i ofynion Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, i gynnwys profi ansawdd dŵr trwy gydol y flwyddyn a monitro lefelau microblastigion a llygryddion eraill. Yn ogystal, dylid sicrhau bod yr adnoddau a buddsoddiad angenrheidiol ar gael i gyflawni'r gwaith o fonitro ein hafonydd yn effeithiol.
- Cyflwyno targedau adfer natur sy'n rhwymo mewn cyfraith er mwyn amddiffyn a chefnogi'r gwaith o adfer natur.
- Datblygu strategaeth er mwyn mynd i'r afael â llygredd microblastigion.
- Rheoleiddiadau a gorfodaeth amgylcheddol gryfach, gan gynnwys mwy o adnoddau er mwyn galluogi'r rheolyddion i orfodi'r rheolau.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r materion sy'n cael sylw yn y manifesto hwn, cysylltwch â swyddfa FfCSyM-Cymru.

FfCSyM-Cymru

Swît 5

11 Heol yr Eglwys Gadeiriol

Caerdydd CF11 9HA

Rhif ffôn: 029 2022 1712

Ebost: walesoffice@nfwi-wales.org.uk

thewi.org.uk/wi-in-wales/ / thewi.org.uk/campaigns

facebook.com/thewi

instagram.com/womensinstitute

[@thewi-wales.bsky.social](https://twitter.com/thewi-wales)

Corfforwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig drwy warant - Rhif 251 7690

Rhif Cofrestru Elusen 803793